

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 11 Tachwedd 2015 i'w hateb ar 18 Tachwedd 2015

R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.
(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

- 1. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl cyllid Ewropeaidd yn y broses o gyfrannu at dwf a swyddi yn Islwyn?
OAQ(4)0627(FIN)
- 2. Gwenda Thomas (Castell-nedd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran pwerau trethu newydd Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0636(FIN)
- 3. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddi i arbed? OAQ(4)0621(FIN)
- 4. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatganoli treth dir y dreth stamp i Lywodraeth Cymru?
OAQ(4)0633(FIN)W
- 5. Elin Jones (Ceredigion):** Sut y mae'r Gweinidog yn annog cwmnïau o Gymru i dendro am gontractau caffael Llywodraeth Cymru?
OAQ(4)0630(FIN)W
- 6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa asesiad a wnaeth y Gweinidog o'r goblygiadau i Gymru o'r toriadau o 30 y cant i adrannau trafndiaeth, llywodraeth leol ac amgylchedd Llywodraeth y DU?
OAQ(4)0624(FIN)
- 7. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** Pa gyllid ychwanegol y mae'r Gweinidog yn ei ddyrannu i'r portffolio cymunedau a threchu tloidi i ariannu'r trydydd sector? OAQ(4)0631(FIN)
- 8. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau a ariennir gan yr UE yng ngogledd-ddwyrain Cymru?
OAQ(4)0629(FIN)
- 9. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Cronfa Strwythurol Ewropeaidd a gymeradwywyd yn ddiweddar yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0625(FIN)W

10. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu trethi newydd i Gymru? OAQ(4)0628(FIN)

11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ(4)0635(FIN)

12. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch y dyraniad cyllidebol i'r portffolio gwasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0634(FIN)

13. Janet Haworth (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniadau i'r portffolio cyfoeth naturiol yn y dyfodol? OAQ(4)0626(FIN)

14. Christine Chapman (Cwm Cynon): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y defnyddir cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i wella cyfleoedd cyflogaeth yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0622(FIN)

15. Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i sicrhau bod adnoddau ychwanegol ar gael i ddelio ag unrhyw bwysau yn sgil tywydd garw y gaeaf? OAQ(4)0620(FIN)

Gofyn i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

1. Aled Roberts (North Wales): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith toriadau i gyllidebau heddlu? OAQ(4)647(PS)W

2. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan gyrff cyhoeddus? OAQ(4)0645(PS)W

3. Gwenda Thomas (Castell-nedd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth trefniadau cydweithredol wrth ddarparu gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0638(PS)

4. Aled Roberts (North Wales): A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sydd wedi eu cymryd i leihau gwariant ar gyflogau uwch swyddogion o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0644(PS)W

5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella diogelwch cymunedol yn Sir Benfro? OAQ(4)0633(PS)

6. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog esbonio pa ffactorau y rhoddir ystyriaeth iddynt gan awdurdodau lleol pan fyddant yn gwneud toriadau i wasanaethau cyhoeddus? OAQ(4)0634(PS)

- 7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Faint o'r 62 o argymhellion a wnaed gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus sydd wedi cael eu rhoi ar waith? OAQ(4)0632(PS)
- 8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar dryloywder ac atebolrwydd o fewn llywodraeth leol? OAQ(4)0639(PS)
- 9. Eluned Parrott (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0640(PS)
- 10. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu Bil Llywodraeth Leol (Cymru) newydd? OAQ(4)0635(PS)
- 11. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda llywodraeth leol yng Nghymru ynghylch ariannu llywodraeth leol yn 2016-17? OAQ(4)0643(PS)
- 12. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2016-17? OAQ(4)0636(PS)
- 13. Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y trafodaethau y mae wedi'u cael gydag awdurdodau lleol o ran pwysau'r gaeaf? OAQ(4)0631(PS)
- 14. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflogau ac amodau swyddogion cymorth yr heddlu? OAQ(4)0642(PS)
- 15. Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cofrestru pleidleiswyr yng Nghymru? OAQ(4)0637(PS)